Heddlu • Police
DYFED POWYS

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# Adroddiad Blynyddol 2024-25

## Cyflwyniad

Y flwyddyn adrodd hon (2024-25) oedd y flwyddyn lawn gyntaf o weithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd Heddlu Dyfed-Powys a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ar gyfer 2024-2028.

Cyflwynwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i atgyfnerthu ein hymrwymiad i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; dileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da ar draws pob nodwedd warchodedig.

Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar bedwar amcan strategol:

1. Cynyddu amrywiaeth y gweithlu a grwpiau gwirfoddol i fod yn gwbl gynrychiadol o'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, gan ganolbwyntio ar recriwtio, cadw a datblygu.
2. Mynd i'r afael â gwahaniaethau ar sail hil yn HDP a SCHTh a'u dileu drwy weithredu polisïau ac arferion sy'n hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.
3. Cryfhau ein perthnasau o fewn ein cymunedau drwy blismona cymunedol rhagweithiol a gweithgareddau ymgysylltu.
4. Hyrwyddo diwylliant sy'n gynhwysol a chefnogol, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig ac sy'n herio ymddygiad hiliol, homoffobig neu wreig-gasaol.

Mae'r adroddiad yn cynnwys cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu dros flwyddyn gyntaf y cynllun. Mae'r adroddiad yn cyfuno'r cynnydd a wnaed gan Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

## Amcan 1

Cynyddu amrywiaeth y gweithlu a grwpiau gwirfoddol i fod yn gwbl gynrychiadol o'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, gan ganolbwyntio ar recriwtio, cadw a datblygu.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Cynyddu amrywiaeth y gweithlu a grwpiau gwirfoddol drwy osod targedau clir ar gyfer cyfran y gynrychiolaeth gan grwpiau a dangynrychiolir drwy fwrw ymlaen â'r Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol yn weithredol;
- Nodi a dileu rhwystrau, a thrwy hynny, galluogi pawb sy'n gymwys i ymuno â'r sefydliad a'n grwpiau gwirfoddol;
- Cynyddu rhaglenni datblygu mentoriaeth er mwyn cefnogi datblygiad gyrfa.

Sut fyddwn ni'n monitro cynnydd?

| **Ffocws** | **Diweddariad** |
|---|---|
| Adolygu derbyniadau recriwtio | Caiff data ar gyfer recriwtio eu monitro yn y cyfarfod Datblygu Pobl a'r Sefydliad strategol. |
| Cyhoeddi adroddiadau cynnydd blynyddol yn erbyn ein Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol | Lansiwyd ein strategaeth gweithredu cadarnhaol yn 2024 a bydd adroddiad o'r cynnydd a wnaed yn cael ei gyhoeddi yn 2025. |
| Adolygu'r data amrywiaeth personol yr ydym yn eu casglu mewn perthynas â'n staff, swyddogion a gwirfoddolwyr er mwyn nodi gwahaniaethau, yn ogystal ag amharodrwydd i ddatgelu. Bydd hyn hefyd yn cynnwys adolygiad ar draws y strwythur rheng | Cynhelir adolygiad o'r data amrywiaeth personol bob chwarter yn ein cyfarfod Grŵp Cofleidio Cynrychiolaeth Amrywiol mewnol. Mae'r cofnodion 'dim data' a gofnodwyd yn parhau i fod yn uchel, er gwaethaf opsiwn ar wahân i ddatgan 'gwell gennyf beidio â dweud'.<br><br>Roedd erthygl 'Ymgyrch Diogel i Ddweud' yn y cylchlythyr mewnol (o'r enw 'the informer') ym mis Chwefror 2025. Mae'r erthygl yn atgoffa darllenwyr y gallant ddiweddaru ac adolygu'r wybodaeth hon ar ein systemau. Cyhoeddwyd erthygl debyg ym mis Mawrth 2025 ar y fewnrwyd.<br><br>Mae'r adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Gymraeg yn darparu mewnbwn mewn sesiynau sefydlu staff a swyddogion newydd, sesiynau hyfforddi arweinyddiaeth a thrwy gwrs Dosbarth Meistr Adnoddau Dynol. Anogir swyddogion a staff i ddiweddaru eu gwybodaeth bersonol yn ystod y sesiynau |

| | |
|---|---|
| | hyn, drwy roi gwybod pam ei bod hi’n fuddiol gwneud hynny.<br><br>Mae offeryn monitro metrigau pobl yn cael ei ddatblygu – mae hyn yn rhoi cyfle i olrhain newidiadau a thueddiadau mesuradwy o fewn ein data gweithlu. Mae’r pecyn wedi caniatáu inni ystyried metrigau pwysig (e.e. metrigau i alluogi olrhain a oes nifer anghymesur o unigolion sy’n gadael y sefydliad sydd wedi cofnodi bod ganddynt nodweddion gwarchodedig). |
| Bydd SCHTh yn goruchwylio data anghymesuredd yn ein gweithgarwch craffu, ac yn dadansoddi sut mae’r data’n newid dros amser. | Mae'r Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn nodi data ethnigrwydd ar y ffurflenni maent yn eu cwblhau ym mhob ymweliad. Mae'r ffurflen wedi'i diwygio'n ddiweddar o destun rhydd i gwymplen a fydd yn gwella cywirdeb cofnodi a thynnir sylw at hyn yn y diweddariadau chwarterol i'r Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa. Yn y data ar gyfer chwarter 4, cofnodwyd dadansoddiad o grwpiau ethnig unigolyn a gedwir yn y ddalfa a bydd yn cael eu monitro'n rheolaidd drwy gydol adroddiadau yn y dyfodol.<br><br>Bydd y Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llysoedd yn ystyried a oes unrhyw faterion neu bryderon anghymesuredd i'w codi yn ystod eu craffu ar achosion. Ym mis Rhagfyr 2024 canolbwyntiodd y panel ar achosion troseddau casineb/menywod ac anghymesuredd.<br><br>Ar 28 Chwefror 2024, cynhaliodd tîm sicrwydd SCHTh sampl ar hap o gwynion a ymchwiliwyd iddynt gan yr Adran Safonau Proffesiynol a gofnodwyd fel gwahaniaethu. Adolygwyd pum achos.  Yn ogystal, cynhaliwyd rownd arall o samplu ar hap ym mis Chwefror 2025 gan ganolbwyntio ar gwynion troseddau casineb yr ymdriniwyd â hwy y tu allan i atodlen 3. |

## Uchafbwyntiau allweddol Amcan 1 – Heddlu Dyfed Powys

Isod, rydym yn tynnu sylw at rai o'r mentrau allweddol sydd gennym o fewn Heddlu Dyfed-Powys sy'n cyfrannu at yr amcan hwn.

### Asesiadau dyslecsia

Mae ein tîm o aseswyr dyslecsia mewnol wedi cefnogi dros 109 o swyddogion a staff ers iddo gael ei lansio ym mis Mai 2022. Mae'r tîm yn cynnwys pum swyddog a staff sydd wedi cael hyfforddiant i fod yn aseswyr dyslecsia.

### Datblygu llwybr arweinyddiaeth newydd

Mae'r llwybr arweinyddiaeth newydd yn cynnwys pecynnau hyfforddi ar gyfer arweinyddiaeth sylfaen, arweinyddiaeth rheng gyntaf ac arweinyddiaeth rheng ganol – ac mae pob un ohonynt yn cynnwys trafodaethau ar waith sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, amrywiaeth a gwrth-hiliaeth. Mae cyrsiau annibynnol ar sgyrsiau beirniadol a dosbarth meistr ar bynciau Adnoddau Dynol hefyd wedi'u datblygu.

### Ysbrydoli

Yn 2025, byddwn yn cynnal cynllun peilot o'r enw 'ysbrydoli'. Cwrs undydd newydd yw hwn sydd ar gael i bob aelod o staff a swyddogion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i helpu i feithrin hyder a datblygiad ar draws.

### College Learn (e-ddysgu)

Mae gan bob swyddog a staff fynediad i blatfform College Learn. Dan arweiniad y Coleg Plismona, mae'r pecynnau'n cynnwys pynciau fel Deddf Cydraddoldeb 2010, hyfforddiant ar beidio â chadw'n dawel, aflonyddu rhywiol, rhagfarn ddiarwybod, stopio a chwilio, deall awtistiaeth a'r cod moeseg.

### Rhwydweithiau cymorth

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys nifer o rwydweithiau a chymdeithasau cymorth staff rhad ac am ddim y gallai bob aelod o staff/pob swyddog neu wirfoddolwr sy'n gweithio i Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ymuno â hwy. Mae'r rhwydweithiau'n sicrhau bod yr heddlu'n hyrwyddo amgylchedd gwaith sy'n cynnwys ac yn gwerthfawrogi pob unigolyn, gan gydnabod a dathlu'r buddion cadarnhaol y mae ein hamrywiaeth yn eu cynnig.

Er bod rhwydweithiau'n wahanol i'w gilydd o ran eu cyfansoddiad, eu cylch gorchwyl a'u gweithgareddau, yn gyffredinol mae pob rhwydwaith yn darparu cymorth yn y gweithle i'w aelodau ac yn ceisio helpu'r sefydliad i ddarparu ar gyfer anghenion

amrywiol ei swyddogion/aelodau staff. Ymgynghorir ag aelodau rhwydweithiau hefyd ynghylch polisïau a gweithdrefnau perthnasol, fel rhan o'r broses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a thrwy'r broses ymgynghori ffurfiol ar bolisïau.

Gwahoddir rhwydweithiau cymorth staff i fynd i gyfarfod mewnol y Grŵp Cofleidio Cynrychiolaeth Amrywiol, gan ddwyn materion allweddol i sylw aelodau trwy adrodd am eithriadau a darparu diweddariadau.

Mae pob un yn angerddol dros sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn gynhwysol ac yn gynrychiadol o'r gymuned rydym yn ei gwasanaethu.

Dyma ein rhwydweithiau:

- Rhwydwaith Cefnogi Galluoedd Staff
- Cymdeithas Gristnogol yr Heddlu
- Rhwydwaith Cefnogi Lleiafrifoedd Ethnig
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhywedd
- Rhwydwaith Cefnogi Staff LHDT+
- Rhwydwaith Cefnogi Staff sy'n Gyn-filwyr

## Strategaeth gweithredu cadarnhaol

Fe wnaethom ni lansio ein Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol, sydd wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan. Mae'n canolbwyntio ar recriwtio, cynnydd a chadw. Cyhoeddir adroddiad cynnydd blynyddol yn ddiweddarach yn 2025.

## Adolygiadau anghymesuredd fetio

Mae'r Panel Adolygu Anghymesuredd Fetio yn cyfarfod i drafod ymgeiswyr fetio y gwrthodwyd caniatâd fetio iddynt, sydd wedi cofnodi nodwedd warchodedig. Diben y panel yw adolygu a fu unrhyw anghymesuredd yn y broses benderfynu. Mae'r panel yn cynnwys Prif Uwch-arolygydd, Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a'r Gymraeg, cynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yn ogystal â chadeiryddion o rwydweithiau cymorth staff lle bo'n briodol. Cynhaliwyd tri Phanel Adolygu Anghymesuredd Fetio ers mis Ebrill 2024. Trafodwyd cyfanswm o bum ymgeisydd.

## Uchafbwyntiau allweddol amcan 1 – SCHTh

Isod, rydym yn tynnu sylw at rai o'r mentrau allweddol sydd gennym o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n cyfrannu at yr amcan hwn.

**Cysylltu â chymunedau i rannu cyfleoedd gwirfoddoli:**

- **Ymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu**

Roedd grwpiau ffocws Ymgynghoriad Cynllun Heddlu a Throseddu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu gyda grwpiau lleiafrifol yn cynnwys cyfraniadau ar gyfleoedd gwirfoddoli o fewn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Eu nod oedd cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o rôl a chyfrifoldeb Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yn ogystal â'u hannog i gefnogi ein gwaith drwy ddod yn wirfoddolwr. Er na wnaethom recriwtio aelodau newydd o grŵp lleiafrifol yn 2024-25, rydym yn parhau â'n hymdrechion i hyrwyddo ein holl gyfleoedd i wirfoddoli.

- **Cymorthfeydd cymunedol**

Yn dilyn adolygiad o strwythurau llywodraethu'r swyddfa, rydym bellach wedi cyflwyno cymorthfeydd cymunedol chwarterol fel rhan o'n diwrnodau ymgysylltu â'r gymuned. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, gall y cyhoedd ddysgu mwy am rôl a chyfrifoldebau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a gwaith y swyddfa, gan gynnwys ein cynlluniau gwirfoddoli, fforwm ymgysylltu â dioddefwyr, cynllun Llysgennad Ieuenctid, cyllid cymunedol, gwasanaethau a gomisiynwyd, a'r prosesau cwyno. Yn ystod 2024-25, cynhaliwyd dwy gymorthfa gymunedol: un yn Llanbedr Pont Steffan ym mis Rhagfyr 2024, a'r llall yn Aberhonddu ym mis Mawrth 2025.

**Ymwybyddiaeth fewnol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Aeth staff i ddau ddiwrnod cwrdd i ffwrdd SCHTh a ganolbwyntiodd ar ddod yn sefydliad sy'n ystyriol o drawma yn unol â fframwaith ystyriol o drawma Cymru. Roedd hyn yn cynnwys deall beth mae'n ei olygu i fod yn ystyriol o drawma gyda'n gilydd, ein gwirfoddolwyr ac aelodau'r cyhoedd yr ydym yn dod i gysylltiad â hwy. Trafodwyd trawma hiliol a sut y gallwn ddysgu mwy am y maes hwn.

**Hyfforddiant Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Mae gan holl staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu fynediad i blatfform College Learn. Dan arweiniad y Coleg Plismona, mae'r pecynnau'n cynnwys pynciau fel Deddf Cydraddoldeb 2010, hyfforddiant ar beidio â chadw'n dawel, aflonyddu rhywiol, rhagfarn ddiarwybod, stopio a chwilio, deall awtistiaeth a'r cod moeseg. Mae 95% o staff y swyddfa wedi cwblhau'r pecynnau hyfforddi hyn.

## Recriwtio

Yn ddiweddar, hysbysebodd SCHTh swydd lleoliad gwaith ar gyfer myfyrwyr o fewn y tîm i gefnogi eu gweithgarwch craffu a goruchwylio, yn ogystal â chefnogi cynlluniau gwirfoddoli. Roedd cydweithio â'r Brifysgol Agored ar elfennau o'r broses recriwtio wedi helpu i gynyddu cyfran y ceisiadau i’r swyddfa gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

## Amcan 2

Mynd i'r afael â gwahaniaethau ar sail hil yn HDP a SCHTh a'u dileu drwy weithredu polisïau ac arferion sy'n hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Cynnal adolygiadau annibynnol rheolaidd o brosesau recriwtio a dyrchafu i sicrhau eu bod yn deg ac nad ydynt yn rhoi unigolion o gefndiroedd lleiafrif ethnig dan anfantais anghymesur;
- Defnyddio ein Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i gynnal asesiad annibynnol o gynlluniau cydraddoldeb hiliol a darparu argymhellion ar gyfer gwella;
- Cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth hil gorfodol ar draws yr heddlu;
- Hwyluso ymgysylltu rheolaidd â'r gymuned i ddeall sut maen nhw'n teimlo a rhoi gwybodaeth.

Sut fyddwn ni'n monitro cynnydd?

| **Ffocws** | **Diweddariad** |
|---|---|
| Adolygu cofnodion Stopio a Chwilio a Defnydd o Rym yn ein cyfarfodydd Grŵp Ymgynghorol Annibynnol chwarterol, gwaith hap samplu gan Banel Sicrhau Ansawdd SCHTh a'r Panel Craffu ar Ddalfeydd | Cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu adolygiad o'r Grŵp Cynghori Annibynnol. Awgrymodd un o'r argymhellion ddileu gweithgareddau craffu Stopio a Chwilio a'r Defnydd o Rym. Fodd bynnag, mae ystyriaethau pellach yn cael eu gwneud i sicrhau parhad y craffu ar Stopio a Chwilio a'r Defnydd o Rym, sy'n cynnwys recriwtio aelodau nad oes angen iddynt fynd trwy'r broses fetio.<br><br>Yn ogystal, mae'r Panel Sicrhau Ansawdd yn craffu ar Stopio a Chwilio a'r Defnydd o Rym. Cyhoeddir adroddiadau ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n tynnu sylw at y sylwadau a wnaed yn ystod cyfarfod y panel.<br><br>Mae gan Heddlu Dyfed-Powys fesurau craffu mewnol ar waith pan fydd rhingyll yn craffu ar 20 achos stopio a chwilio a'r fideos camera corff cyfatebol fesul uned reoli sylfaenol bob mis.<br><br>Yn ogystal, mae'n ofynnol i bob arolygydd archwilio pum cofnod stopio a chwilio a ddewiswyd ar hap bob mis ar gyfer eu hardaloedd priodol o'r mis blaenorol. Ar gyfer stopio a chwilio pan fo naill ai *ethnigrwydd hunanddiffiniedig* neu *ethnigrwydd yn ôl diffiniad y swyddog* wedi'u cofnodi fel |

| | |
|---|---|
| | grwpiau ethnig leiafrifol ar gyfer ardal Dyfed-Powys, cynhelir **archwiliad 100%** o'r holl gofnodion bob mis. Mae canfyddiadau'r archwiliadau'n cael eu hadrodd yn uniongyrchol i'r cyfarfod Defnydd Moesegol o Bwerau'r Heddlu chwarterol lle cânt eu gwerthuso. Mae cynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn mynd i'r cyfarfod ar ran Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.<br>Er mwyn cryfhau tryloywder a chynyddu goruchwyliaeth, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi rhoi mynediad i'r Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu at ddangosfwrdd data Perfformiad Stopio a Chwilio a dangosfwrdd data Sicrwydd Ansawdd. Cyhoeddir gwybodaeth hefyd ar wefan Heddlu Dyfed-Powys: Stopio a Chwilio a Defnydd o Rym.<br><br>Cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu adolygiad o'r Grŵp Cynghori Annibynnol. |
| Monitro prosesau recriwtio a dyrchafu | Rydym wedi parhau i hyrwyddo rolau arbenigol i gynyddu cynrychiolaeth ar draws adrannau/rhengoedd heb gynrychiolaeth ddigonol, a chymorth gweithredu cadarnhaol ymhlith yr ymgeiswyr.<br><br>Rydym wedi parhau i ddarparu cyfraniadau gweithredu cadarnhaol at y rhaglenni hyfforddi arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod goruchwylwyr yn cefnogi eu timau'n effeithiol.<br><br>Mynychwyd cyfarfodydd gweithredu cadarnhaol Cymru gyfan i archwilio ffyrdd o gydweithio a rhannu arferion gorau o bosibl. Digwyddiad(au) a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn adrodd nesaf.<br><br>Er bod rolau allanol yn cynnwys proses ar gyfer gofyn am gymorth gweithredu cadarnhaol, nid oedd prosesau recriwtio/datblygu mewnol bob amser yn cynnig yr wybodaeth hon, fel y canfuwyd mewn adolygiad bwrdd gwaith. Mae'r tîm recriwtio bellach yn sicrhau bod y cynnig hwn ar gael ar bob hysbyseb rolau mewnol (yn ogystal â rolau allanol). |

| | |
|---|---|
| | Mae gwybodaeth am gamau cadarnhaol wedi'i chynnwys yn y taflenni recriwtio a fydd yn cael eu dosbarthu i dimau plismona bro i'w dosbarthu o fewn eu cymunedau.<br><br>Rhaglen PALS (setiau dysgu gweithredol proffesiynol) – yn cydweithio â Heddlu De Cymru, Heddlu Gwent a Heddlu Gogledd Cymru, i ariannu a chyflwyno'r rhaglen PALS (setiau dysgu gweithredol proffesiynol) i staff a swyddogion sy'n dod o gefndir ethnig leiafrifol.<br><br>Cynhaliwyd sesiynau ymgyfarwyddo i ymgeiswyr am swyddi swyddogion heddlu cyn proses y Ganolfan Asesu Ar-lein i ddarparu cymorth/cyfarwyddyd.<br><br>Cynhaliwyd sesiynau ymgyfarwyddo i ymgeiswyr am swyddi swyddogion heddlu cyn y cyfweliadau. |
| Ceisio adborth gan staff/swyddogion/aelodau o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ac aelodau Rhwydweithiau Cymorth Staff ar sesiynau ymwybyddiaeth hil | Cynhaliwyd cynllun peilot newydd yn ymwneud â hil o'r enw Sesiwn Ymwybyddiaeth o Ddiwylliannau ym mis Hydref 2024. Rhoddodd y rheini oedd yn bresennol, gan gynnwys cynrychiolwyr rhwydweithiau cymorth staff, adborth ac ymgorfforwyd y newidiadau i'r cwrs. Lansiwyd y cwrs ym mis Ionawr 2025. Mae dros 287 o swyddogion a staff o Heddlu Dyfed-Powys wedi cwblhau'r hyfforddiant hyd yn hyn. Mae 10 aelod o staff o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant hyd yn hyn. |

## Uchafbwyntiau allweddol amcan 2 – Heddlu Dyfed-Powys

Isod, rydym yn tynnu sylw at rai o'r mentrau allweddol sydd gennym o fewn Heddlu Dyfed-Powys sy'n cyfrannu at yr amcan hwn.

### Hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiwylliannau sy'n ymwneud â hil

Mae ein hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiwylliannau sy'n ymwneud â hil wedi bod yn mynd rhagddo ers 9 Ionawr 2025 ac mae'n cael ei gyflwyno i staff a swyddogion Heddlu Dyfed-Powys, a staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae'r hyfforddiant yn sesiwn wyneb yn wyneb tair awr o hyd dan arweiniad hyfforddwyr allanol (No Boundaries LTD). Mae'r adborth a gafwyd ynghylch yr hyfforddiant hyd yn hyn yn gadarnhaol.

### Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymrwymo i Gynllun Gweithredu Hil yr Heddlu. Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu yw'r ymdrech gydlynol fwyaf erioed ar draws pob heddlu yng Nghymru a Lloegr i wella ymddiriedaeth a hyder mewn plismona ymhlith cymunedau Du. Mae plismona yn benderfynol o ddod yn sefydliad gwrth-hiliol sy'n dileu rhagfarn a gwahaniaethu o'i rengoedd yn weithredol.

### Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru

Mae Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi ymrwymo i Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru.

### Mis Hanes Pobl Ddu a Chynhadledd Cymdeithas Heddlu Croenddu

Yn ystod Mis Hanes Pobl Ddu, fe glywsom gan aelodau o'n Rhwydwaith Cefnogi Lleiafrifoedd Ethnig ein hunain a ysgrifennodd flogiau mewnol ynghylch eu hanesion, eu taith i blismona, a'u myfyrdodau ar eu gyrfaoedd yn Heddlu Dyfed-Powys.

Amlygwyd y mater yn fewnol hefyd gan y Prif Gwnstabl, a ysgrifennodd a chyhoeddodd flogiau ar hiliaeth sefydliadol a'i fyfyrdodau ar ddathlu Mis Hanes Pobl Ddu dros y flwyddyn ddiwethaf. Aeth y Prif Gwnstabl i gynhadledd flynyddol Cymdeithas Heddlu Croenddu. Yn ystod y gynhadledd, fe gymerodd ein Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu, Donovan Kerr, ran mewn trafodaeth panel ar y thema 'Diwygio Plismona: Yr angen am wasanaeth y gallwn ni i gyd fod yn falch ohono'.

### Arolwg Ein Gweithlu Du

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cofrestru ar gyfer Arolwg Ein Gweithlu Du (ton 3). Mae'r arolwg cenedlaethol pwysig hwn yn archwilio profiadau bywyd swyddogion a staff heddlu Du ac o dreftadaeth Du yn yr heddlu. Fe'i datblygwyd mewn cydweithrediad â Chynllun Gweithredu Hil yr Heddlu, Cyngor Cenedlaethol

Penaethiaid yr Heddlu, a’r Coleg Plismona. Rydym wedi cymryd rhan yn nhon 1 a nhon 2 o'r arolwg yn flaenorol. Rydym yn aros am gyhoeddiad canlyniadau'r arolwg a fydd yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn 2025.

**Hyfforddiant Gwasanaethau Cynhwysol Sipsiwn a Theithwyr**

Cyflwynwyd yr hyfforddiant gan *Friends, Families and Travellers* ar 25 Mawrth 2025 ac roedd y pynciau'n cynnwys hanes sipsiwn a theithwyr, agweddau cymdeithasol ac allgáu economaidd, diwylliant sipsiwn a theithwyr, llety, addysg, gofal iechyd, materion yn ymwneud â llythrennedd, a rhwystrau cyffredin i fynediad. Roedd 22 o bobl wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant, gan gynnwys unigolion o rolau pwynt cyswllt unigol, rolau sy'n cysylltu’n uniongyrchol â'r cyhoedd, rolau dysgu a datblygu a rolau recriwtio.

## Uchafbwyntiau allweddol amcan 2 – SCHTh

Isod, rydym yn tynnu sylw at rai o'r mentrau allweddol sydd gennym o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n cyfrannu at yr amcan hwn.

### Arwain trwy fod yn esiampl da gyda phartneriaid

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed-Powys yn darparu'r fforwm i ddod â phartneriaid allweddol a chynrychiolwyr uwch o asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n gweithredu o fewn Dyfed-Powys ynghyd i alluogi cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. Mae ystyriaeth o hil wedi'i hymgorffori fel ymrwymiad cyffredinol gan aelodau'r bwrdd ac yn rhan annatod o'r holl waith maent yn ei wneud. Bydd prosiect yn dechrau'r flwyddyn nesaf i archwilio ymhellach sut y gall y bwrdd sicrhau gwell cynrychiolaeth o bobl sy'n o gefndir ethnig leiafrifol.

Mae pob gwasanaeth a gomisiynwyd wedi cofrestru i gefnogi amcanion cydraddoldeb Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac mae hyn yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd chwarterol a rhoddir sylw penodol ar wella ein dealltwriaeth o'n cymunedau amrywiol er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n addas at y diben a bod gan ein holl gymunedau lais ym maes plismona. Mae ein holl wasanaethau'n darparu adroddiad naratif ar adolygiad o gydraddoldeb bob blwyddyn i gyd-fynd â'u hasesiadau o gydraddoldeb.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cyfarfod â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol bob chwarter ac mae gwrth-hiliaeth wedi'i gymeradwyo fel eitem sefydlog ar yr agenda o hyn ymlaen. Bydd hyn hefyd yn cael ei gynnwys mewn cyfarfodydd â'r grŵp llywio cyflog byw a byrddau gwasanaethau cyhoeddus.

### Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: cynrychiolaeth a goruchwylio penderfyniadau

Mae gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu broses ar waith sy'n amlinellu'r ystyriaethau ar gyfer cwblhau ac adolygu asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

Mae'r Grŵp Cynghori Annibynnol yn ystyried Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb pan fo cyfleoedd i wneud hynny ac mae dogfennau hyfforddi a chanllawiau ar gael i'r holl staff.

### Dal Heddlu Dyfed-Powys i gyfrif

Mae fframwaith perfformiad newydd y Cynllun Heddlu a Throseddu yn cynnwys adran ar y cynnydd y mae Heddlu Dyfed-Powys yn ei wneud yn erbyn Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu, Cynllun Cyflenwi Gwrth-Hiliaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn

adrodd ar y fframwaith newydd ym Mwrdd Perfformiad Strategol y Comisiynydd ym mis Ebrill 2025. Yn y blaengynllun gwaith ar gyfer 2025/26 bydd y gwasanaeth yn adrodd yn erbyn cyfanrwydd y fframwaith, felly bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu mewn gwell sefyllfa i adrodd ar gynnydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae adolygiadau o gwynion yn cofnodi ethnigrwydd, er nad yw'n orfodol i achwynwyr ddarparu'r wybodaeth. O chwarter 1 2025-26 ymlaen, bydd yr adroddiad chwarterol ar adolygu cwynion yn dadansoddi nifer y cwynion a ddaeth i law (o ddata Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu) ac yna nifer yr adolygiadau a ddaeth i law gan bobl o gefndir ethnig leiafrifol.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi codi cwestiynau yn y Bwrdd Plismona ynghylch cynnydd yr heddlu ar wrth-hiliaeth (cyfarfod lle mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn dal Prif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys i gyfrif).

Ym mis Rhagfyr 2024, canolbwyntiodd y Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i’r Llys ar graffu ar achosion yn ymwneud â throseddau yn erbyn menywod/troseddau casineb ac anghymesuredd a hymiwyddrin â hwy drwy ddatrysiadau y tu allan i’r llys. Adolygodd y panel saith achos yn ymwneud ag oedolion a chwe achos yn ymwneud â phobl ifanc a chododd y pwyntiau canlynol:

- Drwy gydol yr achosion oedolion, nododd y panel, lle nodwyd trosedd a waethygwyd gan hiliaeth, nad oedd awdurdodiad gan reng arolygydd neu uwch yn bresennol yn yr adroddiadau.
- Nododd y panel bryderon ar ôl sylwi bod cyhuddiadau am droseddau a oedd wedi’u gwaethygu gan hiliaeth yn cael eu gollwng yn hytrach na’u nodi fel rhai nad oedd angen cymryd camau pellach. Nododd y panel hefyd fod y cyhuddiadau'n cael eu gollwng o ganlyniad i'r sawl a ddrwgdybir yn gwadu'r honiad. Cytunodd y panel fod hwn yn rheswm annerbyniol i ollwng trosedd. Awgrymodd y panel fod angen hyfforddiant pellach i addysgu swyddogion ar sut i gofnodi trosedd sydd wedi’i waethygu gan hiliaeth.
- Roedd nifer o achosion a adolygwyd yn cynnwys rhai sylwadau amhriodol yn y cofnod digwyddiadau. Pwysleisiodd y panel bwysigrwydd sicrhau bod yr holl fanylion o fewn unrhyw adroddiad gan yr heddlu yn broffesiynol.
- Nododd y panel yr angen i atgoffa'r holl staff o bwysigrwydd glynu wrth y polisi datrysiad y tu allan i’r llys a sicrhau bod yr holl fanylion perthnasol yn cael eu nodi a'u cynnwys yn yr adroddiadau.

### Adolygiad o’r Grŵp Cynghori Annibynnol

Cynhaliwyd adolygiad o’r Grŵp Cynghori Annibynnol – amlinellodd yr argymhellion yr angen am strategaeth recriwtio i gynyddu amrywiaeth a chynrychiolaeth y grŵp.

## Gwasanaethau i Ddioddefwyr

Fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth Gomisiynu ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, mae nifer o brosesau ar waith sy'n monitro'r gwerth a'r canlyniadau a gyflawnir gan wasanaethau a ariennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. I ategu hyn, cwblheir archwiliad bwrdd gwaith bob blwyddyn ar gyfer pob darparwr gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys sawl ffactor adolygu megis amseroldeb a chynnwys adroddiadau perfformiad a chyllid, darpariaeth Gymraeg, gweithdrefnau cwyno, gofynion fetio, ac ati.  Mae'r archwiliad hwn hefyd yn cynnwys asesiad o gydraddoldeb blynyddol a gynhelir gan bob darparwr, sy'n darparu data proffil demograffig, gwaith allgymorth a gyflawnwyd ac unrhyw gamau gweithredu y mae eu hangen i fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau a nodwyd o ran mynediad i wasanaethau neu ddarpariaeth gwasanaethau.

Gwneir craffu pellach ar brosesau a data cydraddoldeb mewn archwiliadau mwy manwl a gynhelir ar gyfer gwasanaethau lle mae contractau ar fin dod i ben; mae hyn yn helpu i lywio cynlluniau ailgomisiynu.

## Amcan 3

Cryfhau ein perthnasau o fewn ein cymunedau drwy blismona cymunedol rhagweithiol a gweithgareddau ymgysylltu.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Datblygu a monitro Strategaethau Ymgysylltu Cymunedol ystyrlon;
- Sefydlu mecanweithiau adborth tryloyw;
- Defnyddio ein Swyddogion Ymgysylltu'n rhagweithiol ac effeithiol.

Sut fyddwn ni'n monitro cynnydd?

| **Ffocws** | **Diweddariad** |
|---|---|
| Sefydlu dull effeithiol i Swyddogion Ymgysylltu fwydo'n ôl i arweinwyr er mwyn sicrhau y cymerir camau gweithredu | Mae ap ymgysylltu â'r gymuned newydd yn cael ei ddatblygu i gefnogi'r gweithgarwch hwn. Bydd yr ap yn cael ei lansio y flwyddyn nesaf. Bydd yr ap hwn yn cefnogi'r gwaith o gofnodi gweithredoedd. |
| Cofnodi'r holl adborth o ddigwyddiadau cymunedol a sicrhau bod diweddariadau'n cael eu bwydo'n ôl i grwpiau cymunedol yr ymgysylltwyd â nhw | Mae ap ymgysylltu â'r gymuned newydd yn cael ei ddatblygu i gefnogi'r gweithgarwch hwn. Bydd yr ap yn cael ei lansio y flwyddyn nesaf. Bydd yr ap hwn yn cefnogi'r gwaith o gofnodi adborth gan y gymuned. |
| Monitro newidiadau o ran amrywiaeth ein cynlluniau gwirfoddol | Cynhaliwyd adolygiad o'r Grŵp Cynghori Annibynnol – amlinellodd yr argymhellion yr angen am strategaeth recriwtio i gynyddu amrywiaeth a chynrychiolaeth y grŵp.<br><br>Mae timau cyfathrebu Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo recriwtio drwy'r cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Mae gwirfoddolwyr hefyd wedi cymryd rhan mewn fideo recriwtio ac wedi bod yn mynd i ddigwyddiadau ar ran Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i hyrwyddo'r cynlluniau.<br><br>Mae tîm sicrwydd ac ymgysylltu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi mynd i golegau a phrifysgolion yn ardal Dyfed-Powys i ymgysylltu â myfyrwyr. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi recriwtio Swyddog Denu Talent sy'n mynd i weithgareddau ymgysylltu i ddenu a recriwtio gwirfoddolwyr, staff a swyddogion. |

| | |
|---|---|
| Monitro tueddiadau mewn data cwynion | Cynhaliodd tîm sicrwydd SCHTh sampl ar hap o gwynion a ymchwiliwyd gan yr Adran Safonau Proffesiynol a gofnodwyd fel cwynion yn ymwneud â gwahaniaethu. Adolygwyd pum achos. Yn ogystal, cynhaliwyd rownd arall o samplu ar hap ym mis Chwefror 2025 gan ganolbwyntio ar gwynion troseddau casineb yr ymdriniwyd â hwy y tu allan i atodlen 3. |

## Uchafbwyntiau allweddol amcan 3 – Heddlu Dyfed-Powys

Isod, rydym yn tynnu sylw at rai o'r mentrau allweddol sydd gennym o fewn Heddlu Dyfed-Powys sy'n cyfrannu at yr amcan hwn.

### Dangosfyrddau data

Mae dangosfyrddau data pwerau'r heddlu bellach yn effeithiol (gan gynnwys dangosfyrddau sicrhau ansawdd) a darperir diweddariadau rheolaidd i'r gweithgor gwrth-hiliaeth mewn perthynas â data. Mae hidlwyr ar gael ar draws llawer o gynhyrchion y dangosfwrdd i edrych ar ethnigrwydd a nodweddion gwarchodedig eraill. Cyhoeddwyd dadansoddiad o stopio a chwilio ar gyfer chwarter ariannol 3 2024/25. Y bwriad yw cyhoeddi'r dadansoddiad hwn bob chwarter, ynghyd ag adroddiad blynyddol. Bydd hyn yn dechrau dangos i'r gymuned bod yr heddlu yn dryloyw a bydd yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd olrhain tueddiadau mewn unrhyw ddata.

### Ymgyrch Ivydene

Yn unol â strategaeth Tîm Plismona Bro ac Atal, a chyda chymorth gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, fe gafodd Heddlu Dyfed-Powys gyllid tuag at frwydro yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gelwir yr ymateb ymroddedig i hyn yn Ymgyrch Ivydene. Mae ymgysylltu â'r gymuned wedi bod yn allweddol i'r gwaith hwn. Rhwng mis Awst 2024 a mis Mawrth 2025, roedd dros 80 o achosion o ymgysylltu â'r gymuned ag unigolion neu grwpiau o bobl o gefndir ethnig leiafrifol drwy Ymgyrch Ivydene yn unig.

### Cynefin

Aeth y Swyddog Gweithredu Cadarnhaol i ddigwyddiad yn Amgueddfa Ceredigion ar 26 Hydref lle mwynhaodd teuluoedd weithgareddau i ddathlu holl ddiwylliannau a threftadaethau gwahanol pobl sy'n byw yng Ngheredigion. Ariannwyd y digwyddiad gan Gronfa Cydlyniant Cymunedol De-orllewin a Chanolbarth Cymru.

Trefnwyd y diwrnod hwyl i'r teulu gan Gyngor Sir Ceredigion, Prifysgol Aberystwyth a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Y thema oedd 'Cynefin', sef 'y lle rydym yn perthyn iddo'.

Anogwyd teuluoedd i flasu gwahanol fwydydd, addurno cerrig mân, chwarae Connect Four enfawr ac ymuno â gweithdy drymio rhyngweithiol. Cawsant gyfle hefyd i siarad â'i gilydd, darganfod beth sydd ganddynt yn gyffredin a rhannu straeon.

## Torri ar Draws

Mae Torri ar Draws yn berfformiad addysgol dwyieithog sy'n ymweld ag ysgolion ar draws ardal yr heddlu i helpu plant i ddeall beth yw aflonyddu rhywiol, trais a gwahaniaethu mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran, a sut i weithredu fel cefnogwyr dros ddioddefwyr.

Mae miloedd o ddisgyblion Cyfnod Allweddol pedwar a phump ar draws ardal yr heddlu wedi cymryd rhan yng ngham un y prosiect, lle buont yn gwylio drama ac yn cymryd rhan mewn gweithdy i drafod y themâu a gyflwynwyd. Yna rhoddwyd mynediad i athrawon at ddeunyddiau pellach ar gyfer gwersi dilynol.

Cafodd digwyddiadau ffug a chynnwys oedd yn berthnasol i oedrannau'r plant (14 – 16 oed) eu canmol gan athrawon, tra bod canlyniadau hynod gadarnhaol yn dangos bod plant yn dysgu’r wybodaeth allweddol hon.

Datgelodd holiaduron a gwblhawyd cyn ac ar ôl sesiynau fod bron ddwywaith cymaint o blant yn deall ystyr trais rhywiol yn erbyn menywod a merched ar ôl y sesiynau, tra bod 83% o ddisgyblion wedi dweud eu bod wedi gadael yn teimlo'n hyderus y byddent yn gallu ymyrryd yn ddiogel pe byddent yn gweld digwyddiad.

## Uchafbwyntiau allweddol amcan 3 – SCHTh

Isod, rydym yn tynnu sylw at rai o'r mentrau allweddol sydd gennym o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n cyfrannu at yr amcan hwn.

**Sesiynau grŵp ffocws yn ymgynghori ar y Cynllun Heddlu a Throseddu gyda grwpiau lleiafrifol**

Er mwyn sicrhau ein bod yn darparu cyfleoedd i'n cymunedau amrywiol ar draws ardal Dyfed-Powys ymgysylltu â ni yn y broses o ddatblygu ein Cynllun Heddlu a Throseddu newydd ar gyfer 2025-2029, cysylltwyd â chyfanswm o 56 o grwpiau cymunedol, sefydliadau neu elusennau i'w gwahodd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. O'r 56 hyn, roedd pedwar grŵp cymunedol ar gael ac yn fodlon cymryd rhan mewn grwpiau ffocws gyda staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd 11 grŵp cymunedol arall hefyd wedi dangos diddordeb mewn ymgysylltu ac ymgynghori â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Swyddfa, ond nid oeddent yn gallu cyfarfod yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. Dangosodd y 41 grŵp cymunedol arall rywfaint o ddiddordeb mewn ymgysylltu â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar y pryd.

Nod y sesiynau grŵp ffocws oedd codi ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau Dyfed-Powys a dangynrychiolir, o rôl a chyfrifoldebau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ynghyd â nodi'r prif feysydd ffocws o bwys i gymunedau Dyfed-Powys y dylid eu hystyried yn y cynllun.

Cynhaliwyd yr holl sesiynau ymgysylltu mewn ffordd a oedd yn galluogi'r holl grwpiau cymunedol i rannu eu barn a'u safbwyntiau, gan sicrhau hefyd eu bod yn cael y cyfle i godi unrhyw gwestiynau neu bryderon am blismona o fewn ardal Dyfed-Powys.

Cynhaliwyd pob sesiwn trwy gyfrwng y Saesneg. Gwnaethpwyd addasiadau rhesymol trwy ddefnyddio cyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain, a lluniwyd dogfennau print bras, a dogfennau wedi'u cyfieithu, ar gyfer grwpiau cymunedol gyda chyfranogwyr ag amhariad ar eu golwg, neu gyfranogwyr nad oeddent yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel eu prif iaith.

Cyfieithwyd y dogfennau i chwe iaith a amlygwyd gan gynrychiolwyr cymunedol cyn yr ymweliad, ac roeddent yn cynnwys amlinelliad o rôl a chyfrifoldebau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad.

Cynhaliwyd pob sesiwn grŵp ffocws ar adegau ac mewn lleoliadau a oedd yn gyfleus i'r grwpiau cymunedol. Roedd y sesiynau'n para rhwng 60 munud a 90 munud.

**Hyfforddiant, hunanfyfyrio a dysgu**

Mae staff wedi cael y cyfle i fynd i nifer o sesiynau hyfforddi drwy gydol y flwyddyn, ochr yn ochr â chael mynediad i adnoddau:

- Gweminar ADHD
- Sesiwn ymwybyddiaeth o Islamoffobia

- Hyfforddiant sy'n ymateb i rywedd ac sy'n ystyriol o drawma
- Adnoddau ymwybyddiaeth o Iaith Arwyddion Prydain ac wythnos ymwybyddiaeth o fod yn fyddar
- Ysgrifennu am ethnigrwydd
- Terminoleg ac iaith ethnigrwydd
- Heriau a chymorth LHDTC+
- Ymwybyddiaeth o awtistiaeth

Mae staff hefyd wedi cwblhau dysgu ar-lein y Coleg Plismona ar roi cynllun gweithredu hil yr heddlu mewn cyd-destun.

Aeth llawer o staff i ddiwrnod hyfforddi ymwybyddiaeth ddiwylliannol sy'n gysylltiedig â hil gyda sesiynau pellach yn yr arfaeth.

Darparodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyllid i BAWSO i gyflwyno sesiynau hyfforddi a oedd yn canolbwyntio ar grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio, i bartneriaid a gweithwyr proffesiynol yn ardal Dyfed-Powys. Cyflwynwyd y cyrsiau hyfforddi canlynol yn ystod chwarter 4.

- Gweithio'n effeithiol gyda phobl heb hawl i gyllid cyhoeddus
- Cam-drin domestig o safbwynt pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
- Amrywiaeth ddiwylliannol ac arferion niweidiol
- Gweithio'n effeithiol gyda chyfieithwyr ar y pryd
- Trais domestig a'r effaith ar blant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg.
- Y Triawd Tocsig: Asesu ac ymateb i'r effaith ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd
- Anffurfio organau cenhedlu benywod
- Caethwasiaeth fodern a masnachu pobl
- Priodas dan orfod a thrais ar sail anrhydedd

Cyflwynwyd yr holl gyrsiau hyfforddi ar-lein i gynyddu'r cyrhaeddiad i'r eithaf. Bwriad yr hyfforddiant oedd uwchsgilio gweithwyr proffesiynol i ddelio â dioddefwyr troseddau trais yn erbyn menywod a'r effeithiau cysylltiedig o fewn grwpiau ethnig leiafrifol a'u cefnogi.
Croesawyd yr hyfforddiant gan bartneriaid a chafwyd adborth cadarnhaol ynghylch dealltwriaeth well o wahaniaethau diwylliannol a dulliau priodol o gefnogi cymunedau amrywiol o ran ethnigrwydd yn Nyfed-Powys.

### Cyfathrebu allanol

Yn ystod 2024-25 rydym wedi parhau i gefnogi gwaith Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar ei Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth. Mae cynrychiolwyr o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys yn eistedd ar weithgor cyfathrebu Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, ac yn 2024-25, mae'r gweithgor wedi comisiynu cwmni cyfryngau i ddatblygu adnoddau a negeseuon i bartneriaid cyfiawnder troseddol eu defnyddio ar sianeli cyfryngau cymdeithasol a sianeli eraill, er mwyn hyrwyddo Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol. Adnoddau dwyieithog yw'r rhain, ac maent yn cynnwys graffigwaith sy'n tynnu sylw

at ein gweledigaeth a'n hymrwymiadau, sydd i gyd wedi'u hamserlennu yn ein gweithgarwch cyfathrebu.

## Hyder y gymuned mewn plismona lleol

Fel y nodwyd yn ein Cynllun Heddlu a Throseddu newydd, gwella ymddiriedaeth a hyder mewn plismona lleol yw gweledigaeth gyffredinol y cynllun ar gyfer 2025-2029. Ers lansio'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd ym mis Chwefror 2025, mae gwaith wedi ei wneud i ddeall sut mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a heddluoedd eraill yn monitro ymddiriedaeth a hyder ar y lefel leol. Ystyriwyd sawl opsiwn, gyda'r nod o sefydlu mecanwaith o fesur a monitro ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn plismona lleol yn ardal Dyfed-Powys yn ystod 2025-26 i gefnogi fframwaith perfformiad newydd y Cynllun Heddlu a Throseddu.

## Dadansoddi amrywiaeth yr ymatebion i ymgynghoriad 2024-25

Fel rhan o'n hymgynghoriadau cyhoeddus, rydym yn casglu data ynghylch amrywiaeth gan ein holl ymatebwyr gyda'r nod o ddeall pa grwpiau sy'n ymgysylltu â ni, ac i nodi unrhyw grwpiau nad ydym yn ymgysylltu â hwy.

## Amcan 4

Hyrwyddo diwylliant sy’n gynhwysol a chefnogol, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig ac sy’n herio ymddygiad hiliol, homoffobig neu wreig-gasaol.

Sut fyddwn ni’n gwneud hyn?

- Hyfforddiant amrywiaeth a chynhwysiant gorfodol;
- Adolygu a chyhoeddi polisïau sy’n ymwneud â diwylliant;
- Hyfforddiant sgyrsiau heriol gorfodol ar gyfer pob goruchwyliwr;
- Hyrwyddo mecanweithiau adrodd mewnol;
- Hwyluso cylchoedd gwrando o fewn y gweithlu, Rhwydweithiau Cymorth Staff, Hyrwyddwyr

Sut fyddwn ni’n monitro cynnydd?

| **Ffocws** | **Diweddariad** |
|---|---|
| Monitro presenoldeb mewn sesiynau ymwybyddiaeth/hyfforddiant gorfodol a chynnwys hyn o fewn Proffiliau Datblygu ac Asesu | Yn y flwyddyn adrodd hon, mae gan bob swyddog ac aelod o staff o fewn Heddlu Dyfed-Powys amcan o ‘adfer hyder y cyhoedd sy’n deillio o faterion cenedlaethol a Chynllun Gweithredu Hil yr Heddlu’. Bydd amcan tebyg yn cael ei gynnwys y flwyddyn nesaf.<br><br>Mae presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi/ymwybyddiaeth gorfodol sy'n ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ei fonitro. |
| Cofnodi’r holl adborth a dderbynnir drwy ddigwyddiadau cylch gwrando a sicrhau ei fod yn cael ei rannu gydag arweinwyr uwch | Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau cylch gwrando gan Heddlu Dyfed-Powys yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer cylch gwrando yn y flwyddyn adrodd nesaf.<br><br>Lansiwyd digwyddiadau “Ymgysylltu a Disgwyliad” yn fewnol – cyfle i atgoffa swyddogion a staff am sut i fod yn gynhwysol ac yn gefnogol, gan gynnwys mewn perthynas â phobl â nodweddion gwarchodedig. Mae'r digwyddiadau hefyd yn cynnwys disgwyliadau o ran gwrthsefyll ymddygiad hiliol, casineb at fenywod neu ymddygiad homoffobig |
| Cyhoeddi arolwg staff mewnol, a bydd SCHTh yn dal Heddlu Dyfed- | Dosbarthwyd yr arolwg Buddsoddwyr mewn Pobl yn ystod y flwyddyn adrodd. |

| | |
|---|---|
| Powys i gyfrif ar eu hymateb i ganfyddiadau'r arolwg | Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus fel cyflogwr Buddsoddwyr mewn Pobl, cynhaliodd Buddsoddwyr mewn Pobl arolwg staff mewnol annibynnol ac yna cyfres o grwpiau ffocws cyfrinachol. Yna defnyddiwyd adborth i greu cynllun gweithredu 'dywedoch chi, gwnaethom ni' a'i rannu â phob aelod o staff yn sioeau teithiol y Prif Swyddog. Cynhelir arolwg Buddsoddwyr mewn Pobl pellach yn 2025 ynghyd â chyfranogiad yr heddlu yn yr Arolwg Llesiant Cenedlaethol newydd. |
| Bydd SCHTh yn monitro adborth o brosesau adolygu cwynion i nodi pryderon mewn perthynas â diwylliant | Mae adolygiadau o gwynion yn cofnodi ethnigrwydd, er nad yw'n orfodol i achwynwyr ddarparu'r wybodaeth. O chwarter 1 2025-26 ymlaen, bydd yr adroddiad chwarterol ar adolygu cwynion yn dadansoddi nifer y cwynion a ddaeth i law (o ddata Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu) ac yna nifer yr adolygiadau a ddaeth i law gan bobl o gefndir ethnig leiafrifol. |

## Uchafbwyntiau allweddol amcan 4 – Heddlu Dyfed-Powys

Isod, rydym yn tynnu sylw at rai o'r mentrau allweddol sydd gennym o fewn Heddlu Dyfed-Powys sy'n cyfrannu at yr amcan hwn.

### Gwobrau Cymdeithas Brydeinig Menywod mewn Plismona 2024

Llongyfarchiadau i'r Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Teleri Williams, ar gael ei henwi'n 'Aelod Staff yr Heddlu'r Flwyddyn' yng Ngwobrau Cymdeithas Brydeinig Menywod mewn Plismona 2024. Cynhaliwyd y gwobrau gan y gymdeithas i gydnabod staff a swyddogion gweithgar ledled y wlad.

Wrth gyflwyno'r wobr iddi, disgrifiwyd Teleri fel "enghraifft o ymroddiad ac arweinyddiaeth drawsnewidiol mewn plismona" a chafodd ei chanmol am ei dylanwad ar ein dull o ymdrin â chydraddoldeb ac amrywiaeth yma yn Heddlu Dyfed-Powys.

Ochr yn ochr â'n henillydd, cafodd tair menyw anhygoel arall o Heddlu Dyfed-Powys eu henwebu yng ngwobrau'r gymdeithas hefyd. Llongyfarchiadau i'r menywod canlynol ar eu henwebiadau haeddiannol:

- PC 984 Zoe Williams – Wedi'i henwebu am 'Ragoriaeth mewn Perfformiad'
- PC 619 Jodi Harris – Wedi'i henwebu am 'Fenyw Ysbrydoledig'
- Karen Phillips – Wedi'i henwebu ar gyfer 'Aelod Staff yr Heddlu y Flwyddyn' a 'Menyw Ysbrydoledig'

### Proffil datblygu ac asesu

Roedd gan bob swyddog ac aelod o staff amcan datblygiad proffesiynol yn ystod y flwyddyn proffil datblygu ac asesu diwethaf (2024/25) yn ymwneud â'r cynlluniau gweithredu hiliaeth a diwylliant y gweithle. Mae swyddogion yn ddarostyngedig i safon datblygiad cyflog, sy'n gysylltiedig â'r proffil datblygu ac asesu.

### Trais yn erbyn menywod a merched

Darperir hyfforddiant pwrpasol ar bobl fregus mewn colegau a phrifysgolion, gyda'r nod o ddiogelu'r rheini sydd fwyaf mewn perygl o drais rhywiol yn ystod nosweithiau allan.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi datblygu rhaglen waith sy'n canolbwyntio'n benodol ar fyfyrwyr 16 i 23 oed, gan gydnabod mai'r grŵp oedran hwn sy'n cael ei effeithio fwyaf gan drais ar sail rhywedd yn economi'r nos.

Gan gyflwyno dwy ffrwd, mae'r rhaglen yn gweithio gyda staff gwasanaethau myfyrwyr ac athrawon, yn ogystal â'r myfyrwyr eu hunain, gan gyflwyno sesiynau codi ymwybyddiaeth, gweithdai a hyfforddiant.

Nod gweithio gyda staff ac athrawon yw sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth ddyfnach o ba ymddygiadau a allai awgrymu risg bosibl o gyflawni trais, yn ogystal â bod yn barod i ddelio â datgeliadau o drais rhywiol gan eu myfyrwyr.

### Cynghreiriaeth Dynion

Wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau mwyaf cyffredin yn y gweithle o ran diwylliant, cymuned a chyfathrebu, mae cwrs Cynghreiriaeth Dynion yn creu mannau dysgu i annog cyfranogwyr i fyfyrio, dysgu gyda chyfoedion, a chydweithio'n effeithiol wrth greu gweithleoedd cynhwysol. Mae darparwr y cwrs, Beyond Equality, yn sefydliad arweiniol sy'n creu newid yn y gweithle ac sy'n arbenigo mewn ymgysylltu â dynion i ymgyrraedd at gydraddoldeb, cynhwysiant, llesiant ac ailystyried gwrywdod.

Nod y gweithdai wedi’u teilwra hyn oedd dyfnhau ymwybyddiaeth o wahaniaethu cymdeithasol a gwahaniaethu yn y gweithle a'n galluogi i gydnabod sut y gallwn gyfrannu'n feddylgar at gydraddoldeb. Cyflwynwyd y sesiynau drwy ddwy sesiwn wyneb yn wyneb a hanner diwrnod o gynllunio gweithredu ar-lein.

### Camau Cyntaf i Gynhwysiant LHDT+ / Camau Cyntaf i Gynhwysiant Traws

Darparwyd yr hyfforddiant gan Stonewall ar 20 Mawrth 2025. Rhoddwyd y dewis i'r rheini a oedd yn bresennol i gymryd rhan yn y ddau gwrs neu yn y rhan berthnasol (Camau Cyntaf i Gynhwysiant LHDT+ (yn y bore) / Camau Cyntaf i Gynhwysiant Traws (yn y prynhawn)). Roedd 16 yn bresennol.

## Uchafbwyntiau allweddol amcan 4 – SCHTh

Isod, rydym yn tynnu sylw at rai o'r mentrau allweddol sydd gennym o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n cyfrannu at yr amcan hwn.

### Adolygiad o drefniadau llywodraethu

Cynhaliwyd adolygiad o drefniadau llywodraethu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a arweiniodd at sefydlu'r Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol. Mae'r bwrdd wedi bod ar waith ers mis Mawrth 2024 ac mae ganddo gylch gorchwyl ffurfiol. Mae'r bwrdd yn gyfle i'r SCHTh ddal yr heddlu i gyfrif mewn perthynas â pherfformiad cwynion. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd ynghylch trin ymddygiad a gweithdrefnau fetio er mwyn rhoi hyder bod prosesau effeithlon ar waith.

### Hyrwyddo diwylliant cynhwysol

Fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau gweithle amrywiol a chynhwysol yn SCHTh, neilltuwyd amcan i bob aelod o staff yn ei broffil datblygu ac asesu i hyrwyddo'n weithredol diwylliant sy'n gynhwysol ac yn gefnogol i'w gilydd. Roedd yr amcan sefydliadol cyfan hwn yn annog staff i fyfyrio ar eu harferion, ymgysylltu mewn ymddygiadau cynhwysol, a chyfrannu at greu amgylchedd croesawgar i bawb.

### Ymddiriedaeth a hyder

Mae ein Cynllun Heddlu a Throseddu newydd, a lansiwyd ym mis Chwefror 2025, yn canolbwyntio ar wella ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn plismona lleol, gan bwysleisio rôl diwylliant sefydliadol. Drwy sicrhau uniondeb, tryloywder a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn, ein nod yw meithrin cysylltiadau cryfach â'r cymunedau a wasanaethwn a sicrhau bod ein gwerthoedd yn cael eu hadlewyrchu yn ein gweithredoedd a'n canlyniadau.

Heddlu • Police
DYFED POWYS

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner